**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 13eg Hydref, 2016 am 10.00 am**

**YN BRESENNOL** Cynghorydd Sir Sara Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir: D. Dovey, D. Edwards, B. Hayward, J. Prosser, A. Wintle, R.J.W. Greenland, V. Smith

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Mark Hand | Head of Planning, Housing and Place-Shaping |
| Nicola Edwards | Strategic Food and Tourism Manager |
| Deb Hill-Howells | Head of Community Led Delivery |
| Dan Davies | Events Coordinator |
| Rachel Lewis | Principal Planning Policy Officer |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir: S. White, D. Evans

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaeth Aelodau unrhyw ddatganiadau buddiant.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhaodd a llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod Pwyllgor Ethol yr Economi a Datblygu dyddiedig 27 Medi 2016.

3. **Velothon 2016 Ôl-drafod.**

**Cyd-destun:**

Rhoi adborth ar Velothon Cymru 2016.

**Materion allweddol:**

- Ddydd Iau 19 Tachwedd 2015 cytunodd y Cyngor i gefnogi Velothon 2016 i'w alluogi i deithio drwy Sir Fynwy ar ôl derbyn sicrwydd y byddai'r llwybr yn cael ei ddiwygio ac y byddai ymgynghori a chyfathrebu helaeth gyda'r rhai yr effeithir arnynt yn ganolog i'w gwaith cyn y digwyddiad.

- Sefydlwyd grŵp llywio cyflenwi gweithredol i oruchwylio cynllunio digwyddiad eleni. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r pump awdurdod lleol, gwasanaethau argyfwng, Llywodraeth Cymru, British Cycling, Run4Wales a phartneriaid cyflenwi allweddol. Sefydlwyd is-grwpiau ychwanegol i edrych yn benodol ar farchnata a chyfathrebu, logisteg ras a logisteg digwyddiad.

- Sefydlodd Sir Fynwy hefyd grŵp ychwanegol 'Ymyrryd ar Wasanaethau Mewnol' a ddatblygodd drefniadau i gael eu defnyddio gan gynrychiolwyr y Cyngor Sir yn Rheoli Digwyddiad Velothon 2016. Paratodd y grŵp ddogfen yn rhoi manylion gwasanaethau'r Cyngor Sir y byddai'r Velothon yn ymyrryd arnynt, trefniadau y cytunwyd arnynt yng nghyswllt parhad gwasanaeth, strwythurau 'Gorchymyn a Rheoli' y digwyddiad, pwyntiau ELAPS, manylion cyswllt allweddol a sut y byddai'r rhain yn cydweddu â'r trefniadau digwyddiadau mawr presennol pe byddai digwyddiad sylweddol.

- Er mwyn sicrhau y caiff y gwersi o Velothon Cymru 2016 eu casglu'n llawn ac y gweithredir camau i helpu gwella cynllunio sefydliadol a rheoli digwyddiadau, casglodd Gyngor Sir Fynwy adborth gan y rhanddeiliaid a phartneriaid i roi adborth i'r trefnwyr.

- Roedd trefniadaeth y digwyddiad yn 2016 yn welliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd pryderon yn dal i fod am faint o amser yr oedd ffyrdd ar gau, diffyg cyfleusterau toiled, sbwriel a'r manteision i'n Sir o gynnal y ras. Trafodwyd y materion hyn yn y Cyngor yng nghyfarfodydd Gorffennaf a Medi 2016. Fel canlyniad, cytunwyd mai dim ond pe byddai'r ffyrdd yn cael eu hailagor yn dilyn y ras cyfranogiad torfol ac y gweithredid rhaglen dreigl o gau ffyrdd cyn y ras y byddai'r Cyngor yn cefniogi'r digwyddiad eleni. Yn ychwanegol byddai angen i'r trefnwyr gadarnhau gyda'r sawl sy'n cymryd rhan na ddylent basio dŵr ar ymyl ffyrdd a rhoi cyfleusterau digonol i sicrhau na fyddai angen yr ymddygiad hwn. Mae swyddogion yn gweithio gyda threfnwyr Velothon i gyflawni'r gofynion hyn.

**Craffu Aelodau**

Codwyd y pwyntiau dilynol ar ôl ystyried yr adroddiad:

- Gofynnodd Aelod pa fanteision y mae'r Velothon yn eu rhoi i etholwyr Sir Fynwy. Esboniodd Pennaeth Cyflenwi Cymunedol y tynnwyd sylw at y pwynt hwn fel mater o gonsyrn yn yr adroddiad. Nodwyd mai Caerdydd sy'n cael y brif fantais gan mai yno mae'r ras yn cychwyn ac yn gorffen. Ychwanegwyd fod manteision llai diriaethol yn Sir Fynwy. Rhoddwyd yr enghraifft fod y sawl sy'n cymryd rhan yn y ras yn ymarfer yn yr ardal ac y gallant aros am seibiant gan efallai ddefnyddio busnesau lleol. Gallent ddychwelyd i'r ardal fel ymwelwyr ond nid oes unrhyw dystiolaeth galed i gefnogi budd economaidd. Tanlinellwyd pwysigrwydd cael tystiolaeth o fudd economaidd i gefnogi penderfyniad y Cyngor i barhau i ymwneud gyda'r digwyddiad.

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd y gweithredir rhaglen dreigl o gau ffyrdd ar gyfer digwyddiad 2017. Cafwyd diweddariad hefyd y byddai llwybr byrrach ar gael ar gyfer y cyfranogwyr hynny sy'n dymuno osgoi'r Tymbl neu'r Blorens. Hysbyswyd aelodau am y llwybr diwygiedig. Dywedwyd fod yr Aelod Lleol yn cytuno gyda'r cynlluniau ar gyfer y llwybr byrrach. Gofynnwyd i'r trefnwyr gymryd rhan mewn trafodaethau cynnar gydag unrhyw fusnesau y gellid effeitho arnynt, a gofynwyd am sicrwydd hefyd y caiff y ffordd ei hailagor cyn gynted â bod y ras cyfranogiad terfynol wedi mynd heibio. Nodwyd fod y trefnwyr wedi cyflawni'r gofynion a

osodwyd gan y Cyngor, felly bydd y ras yn symud ymlaen drwy'r Sir yn 2017, a hysbysir pob Aelod.

- Dywedodd Aelod fod yr adroddiad yn trafod problemau a datrysiadau, a holodd pam fod y digwyddiad a datblygu'r Sir fel cyrchfan seiclo yn cael ei gefnogi. Esboniodd y Rheolwr Strategol Bwyd a Thwristiaeth y cydnabyddir twristiaeth fel marchnad dwf a dynodwyd y Sir fel cyrchfan boblogaidd ar gyfer seiclo fel y dangosir gan nifer y seiclwyr sydd i'w gweld ar ein ffyrdd. Esboniwyd bod Grŵp Seiclo Strategol sy'n trafod cyfleoedd i ddatblygu'r cynnig cynnyrch i roi profiad cadarnhaol i seiclwyr. Ychwanegwyd y gwnaed gwaith fel rhan o brosiect rhanbarthol i ddatblygu pecyn i ddynodi cyfleoedd i ddatblygu twristiaeth seiclo o fewn busnes yn cynnwys dynodi unrhyw rwystrau. Ailadroddwyd ei bod yn hanfodol sefydlu tystiolaeth o fudd economaidd i gefnogi datblygiad y Sir fel cyrchfan seiclo ansawdd uchel. Cytunwyd cylchredeg adroddiad ar bwnc datblygu twristiaeth seiclo yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r adroddiad yn ymchwilio cyfleoedd ar gyfer y dyfodol a sut y gallwn hwyluso twf marchnad.

- Awgrymwyd ei bod yn annigonol dim ond cydnabod adborth fel yr argymhellir yn yr adroddiad. Eglurodd y Cadeirydd rôl craffu'r pwyllgor a'i allu i ychwanegu gwerth, awgrymiadau ac argymhellion. Dywedwyd nad oedd digon o ddata i roi sicrwydd a bod angen ystyried adenilliad ar fuddsoddiad, yr effaith ar adnoddau a buddion i'r Sir yn y dyfodol. Cytunwyd gofyn i Lywodraeth Cymru a Run4Wales gynnal dadansoddiad economaidd o'r digwyddiad i roi data i'w gynnwys mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cytunwyd hefyd i ystyried yr adroddiad ar ddatblygu twristiaeth seiclo yn y cyfarfod nesaf er mwyn cynnal dadansoddiad cost budd.

- Cododd Aelod bryder am y twf mewn seiclo a beicio modur yn y Sir a rhai o'r effeithiau negyddol ar breswylwyr. Dywedwyd, er yn cefnogi'r ddau weithgaredd ac yn gwerthfawrogi'r buddion i fusnesau yn y Sir, bod angen gwybodaeth ar fuddion cost gweithgareddau a digwyddiadau i roi cyfiawnhad i'r rhai yr achosir anghyfleuster iddynt.

- Esboniodd yr Aelod Cabinet y bydd yn anodd paratoi unrhyw beth heblaw tystiolaeth anecdotaidd o fudd economaidd ac y bydd yn ofynnol, er mwyn i'r Velothon barhau ar ôl 2017, i'r trefnwyr roi tystiolaeth sylweddol o'r adenilliad o'r digwyddiad yn y dyfodol.

- Soniwyd fod manteision iechyd seiclo, a'r digwyddiad yn ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan, yn agweddau pwysig i'w hystyried.

- Dywedodd Aelod fod sylw ar y teledu yn dangos cefn gwlad Sir Fynwy yn hysbysebu da ond ychwanegodd nad yw'r holl Sir (e.e. Trefynwy) yn cael budd o'r digwyddiad.

- Cydnabuwyd gwaith y swyddogion oedd yn ymwneud â'r digwyddiad.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 13eg Hydref, 2016 am 10.00 am**

**Crynodeb y Cadeirydd**

- Dywedodd y Cadeirydd mai rôl y Pwyllgor oedd craffu adenilliad ar fuddsoddiad a dynodi buddion y digwyddiad i'r Sir. I wneud hynny, gofynnir i drefnwyr roi adroddiadau ariannol mesuradwy i ddangos yr adenilliad a'r buddion i'r Sir o ddigwyddiad y flwyddyn nesaf.
- Cytunwyd ystyried yr adroddiad ar ddatblygu twristiaeth seiclo yn Ne Ddwyrain Cymru yn y cyfarfod nesaf.
- Cytunwyd edrych eto ar ein methodoleg ein hunain i ddynodi budd economaidd yn cynnwys tystiolaeth anecdotaidd i roi sicrwydd i breswylwyr drwy ddarparu gwybodaeth lawn.

4. **Perfformiad Twristiaeth Sir Fynwy 2015.**

**Cyd-destun:**
Rhoi cerdyn adrodd i Aelodau sy'n ystyried Perfformiad Twristiaeth Sir Fynwy am 2015 o gymharu gyda'r amcanion a'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Gwella'r Cyngor.

**Materion Allweddol:**
Mae'r cerdyn adroddiad yma yn rhoi sylw i berfformiad o gymharu â dangosyddion perfformiad allweddol 2015. Mewn hinsawdd lle mae adnoddau dan bwysau cynyddol, bu'n hollbwysig canolbwyntio'n gadarn ar flaenoriaethau a chynyddu gweithio partneriaeth a chyfleoedd i gael mynediad i gyllid allanol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Strategol Bwyd a Thwristiaeth.

**Craffu Aelodau**

Gofynnodd Aelod am ddadansoddiad o gyllideb y Canolfannau Croeso o £42,358 ac effaith hynny ar y gwahanol Ganolfannau Croeso yn y Sir. Eglurwyd mai cyllideb y llynedd oedd y ffigur yr holwyd amdano a bod cyfraniad is o £18,000 i Ganolfannau Croeso am y flwyddyn bresennol. Oherwydd y costau gweithredol ar gyfer Canolfan Croeso Cas-gwent o £65,000 (y derbynnir cyfraniad o £5,000 ato gan Gyngor Tref Cas-gwent), bu angen gwneud cyfraniad is i Ganolfan Croeso y Fenni eleni tra cymerir camau i symud Canolfan Croeso Cas-gwent i fodel partneriaeth y Fenni. Gofynnwyd am wybodaeth ar gostau llawn Canolfan Croeso y Fenni ac ychwanegir eitem agenda ac adroddiad i'r rhaglen waith yn unol â hynny.

Roedd aelodau'n gwerthfawrogi'r wybodaeth leol a'r croeso a roddir gan Canolfannau Croeso yn ogystal ag adnoddau digidol. Pwysleisiwyd y gellid priodoli'r gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a gofnodwyd i'r oriau agor cyfyngedig mewn ymateb i doriadau cyllideb. Cytunwyd ar yr ymrwymiad i ddynodi partneriaid addas a datblygu gweithio partneriaeth ar gyfer Canolfan Croeso Cas-gwent.

Cytunwyd ystyried dichonolrwydd dod yn Ardal Gwella Busnes Twristiaeth. Esboniodd Aelod y gwnaed gwaith i gylchredeg i fasnachwyr yn y Fenni, gan nad oedd cymdeithas fasnach ar gael, i hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth.

Holodd y Cadeirydd am y cyllid allanol a dderbyniwyd, yn neilltuol, os gall awdurdodau lleol wneud cais am y Cynllun Cefnogi Buddsoddiad Twristiaeth (TISS). Dywedodd y Swyddog y gall awdurdodau lleol wneud cais i unrhyw ffynhonnell cyllid perthnasol yn ôl ei amcanion twristiaeth,

a rhoddodd enghreifftiau o'r cyllid a sicrhawyd o e.e. Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Rhanbarthol, Enillion Cyflym Teithio Llesol a'r Cynllun Datblygu Lleol. Eglurwyd fod elfennau o TISS y gall y sector cyhoeddus wneud cais amdanynt nad ydynt ar gael ar hyn o bryd ond caiff hyn ei fonitro. Hysbyswyd aelodau y comisiynwyd adolygiad o'r Cynllun Cyrchfan ac y bydd blaenoriaethau a chynlluniau'r cynllun newydd yn rhoi gwybodaeth ar gyfer y cylch nesaf o geisiadau cyllid.

Gofynnodd y Cadeirydd am yr amserlenni ar gyfer datblygu'r Cynllun Cyrchfan newydd a dywedwyd wrtho fod yn rhaid ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2017. Argymhellwyd y dylid ymgynghori gydag Aelodau ar y blaenoriaethau ar y cyfle cyntaf.

Atgoffwyd Aelodau a swyddogion am y cyfnod purdah cyn etholiadau mis Mai 2017. Cytunwyd ymgynghori ag Aelodau, efallai ar ffurf gweithdy, ar ôl ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol.

Croesawodd Aelod faint o ddata sydd yn yr adroddiad a rhagwelodd y dylai nifer yr ymwelwyr gynyddu yn y dyfodol gan gofio am yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, a'r Premier Inn newydd yn Nhrefynwy y flwyddyn nesaf yn tanlinellu pwysigrwydd twristiaeth a chefnogaeth barhaus i Ganolfannau Croeso i economi'r Sir.

Mewn ymateb i gwestiwn, esboniodd y Swyddog fod y data defnydd a gesglir yn ddienw ac yn gyffredinol fod llety â gwasanaeth yn y Sir yn perfformio'n gyfartal neu'n well na gweddill Cymru, gan nodi fod problemau capasiti pan gynhelir digwyddiadau mawr.

Atgoffwyd aelodau fod rôl y Pwyllgorau Craffu yn ddiduedd ac yn ychwanegu gwerth i'r broses ddemocrataidd.

Soniodd Aelod am bwysigrwydd cymryd camau priodol o fewn cyllidebau tra bod yr hinsawdd economaidd presennol yn annog ymwelwyr o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig a hefyd i wneud cynlluniau i sicrhau y cedwir y gwelliannau a wnaed pan fydd cyflwr yr economi'n gwella.

**Crynodeb y Cadeirydd**

Nododd y Cadeirydd mai Canolfannau Croeso fu prif ffocws trafodaeth a chytunwyd gofyn am adroddiad pellach i ystyried adnoddau a dyfodol y Canolfannau Croeso.
Cytunwyd y byddai Aelodau yn cynnal gweithdy i ystyried y Cynllun Cyrchfan ar ôl derbyn gwybodaeth gan randdeiliaid allweddol. Nodwyd fod trafodaeth ehangach o faterion cyllid a chydnabyddiaeth y dylid rhoi ystyriaeth i ffactorau economaidd allanol yn y cynlluniau cyfredol a chynlluniau'r dyfodol.
Croesawyd y ffigurau a'r data a roddwyd a diolchwyd i'r Swyddogon am fynychu a rhoi gwybodaeth gynhwysfawr.

5. **Diweddariad polisïau twristiaeth y Cynllun Datblygu Lleol.**

**Cyd-destun**

Derbyn adolygiad wedi'i ddiweddaru o bolisïau cynllunio cysylltiedig â thwristiaeth i alluogi ystyried i ba raddau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi amcanion y Cyngor i dyfu ein heconomi twristiaeth.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 13eg Hydref, 2016 am 10.00 am**

Materion Allweddol:

I gynorthwyo ystyriaeth o'r pwnc hwn, caiff yr adroddiad ei rannu'n ddau ran. Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn dynodi ceisiadau cynllunio cysylltiedig â thwristiaeth a benderfynwyd yn ystod cyfnod monitro'r ail Gynllun Datblygu Lleol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi presennol mewn galluogi datblygu cysylltiedig â thwristiaeth. Mae'r adran yn defnyddio manylion o Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol i ymchwilio caniatâd cynllunio a dynodi unrhyw geisiadau a wrthodwyd.

Mae ail ran yr adroddiad yn diweddaru'r canfyddiadau y rhoddwyd adroddiad arnynt yn flaenorol i'r Pwyllgor Dethol. Mae'n adolygu sut y dylid dehongli'r polisïau Cynllun Datblygu Lleol yng nghyswllt dulliau cynaliadwy o lety twristiaeth ac yn ailystyried i ba raddau y mae'r polisïau yn cefnogi datblygiad o'r fath.

**Penderfyniadau Rheoli Datblygu**

Dengys canfyddiadau Adroddiad Monitro Blynyddol 2015-16 y cymeradwywyd 10 cais ar gyfer defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, wyth ohonynt am gyfleusterau llety twristiaeth. Roedd hyn yn cynnwys chwe gosodiad gwyliau (i gyd wedi'u trawsnewid) mewn gwahanol aneddiadau, estyniad i safle'r lluesty gwyliau presennol ym Mharc Gwledig St Pierre ar gyfer pum lluesty a gwesty newydd 60 ystafell wely yn Nhrefynwy (Premier Inn). Gyda'i gilydd, maent yn darparu dros 70 gofod gwely newydd a byddant yn hwb pellach i'r llety ymwelwyr sydd ar gael yn Sir Fynwy. Cymeradwywyd dau gais arall am ddefnyddiau eraill cysylltiedig â thwristiaeth - caffe cerddwyr yn Llanddewi Ysgyryd ac ardal chwarae newydd yng Nghanolfan Ymwelwyr Llandegfedd. Mae nifer y cyfleusterau twristiaeth a gymeradwywyd yn debyg i'r nifer a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf (10 cais) sy'n dangos fod fframwaith polisi twristiaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn gweithredu'n effeithlon i alluogi datblygiad twristiaeth yn y Sir.

Mae'n werth nodi na chaniatawyd unrhwy geisiadau oedd yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth yn ystod cyfnod monitro 2015-16. Yn yr un modd, ni wrthodwyd unrhyw geisiadau'n ymwneud â defnyddiau cysylltiedig â thwristiaeth. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol lle cymeradwywyd pum cais yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth a gwrthodwyd dau gais cysylltiedig â thwristiaeth. Dengys hyn, ynghyd â nifer y cyfleusterau twristiaeth a gymeradwywyd dros gyfnod monitro 2015-16 ac yn gronnus ers mabwysiadu'r Cynllun, fod y polisïau perthnasol y Cynllun yn gweithredu'n effeithlon gan alluogi datblygiadau o'r fath i ddigwydd yn Sir Fynwy.

**Fframwaith Polisi Twristiaeth y Cynllun Datblygu Lleol**

Tyfodd mathau newydd o lety ymwelwyr mewn blynyddoedd diweddar yn cynnwys yurtiau, tepees a phodiau pren e.e. 'glampio' Gan fod dulliau llety o'r fath yn rhai cymharol ddiweddar, ni chânt eu diffinio mewn deddfwriaeth ac nid oes cyfeiriad eglur atynt ym mholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol. Yn unol â hynny, mae angen ystyried sut y dylai cynigion o'r fath gael eu hasesu o gymharu â'r fframwaith polisi presennol ac i benderfynu os gellid egluro dehongli/gweithredu polisi drwy gynhyrchu Cynlluniau Cynllunio Atodol. Er y cafodd y mater hwn ei ystyried yn yr adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor Dethol, ystyriwyd ei bod yn addas adolygu'r gwaith hwn yng ngoleuni nifer cynyddol o ymholiadau parthed y

mathau newydd hyn o lety ymwelwyr.

Sefydlwyd Gweithgor Swyddogion i adolygu'r dehongliad o bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yng nghyswllt mathau newydd o lety ymwelwyr ac ailystyried i ba raddau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi'r maes cynyddol hwn o dwristiaeth gynaliadwy.

Gosodir ystyriaethau polisi allweddol a pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer pob math o lety twristiaeth. O fewn ffiniau anheddiad, mae datblygiad yn gyffredinol dderbyniol mewn egwyddor yn amodol ar ystyriaethau arferol am gyfleusterau a materion polisi megis risg llifogydd.

Yn gryno, y man cychwyn yw Polisi S11 sy'n cefnogi mathau cynaliadwy o dwristiaeth yn yr un modd â Pholisi S8. Mae cynigion o'r fath yn dderbyniol mewn egwyddor os na chânt eu hatal gan Bolisïau T1, T2 neu T3. Byddai cynigion yn cael eu hasesu yn erbyn polisïau eraill, er enghraifft niwed i'r dirwedd (LC5) neu wrthwynebiadau diogelwch ffordd ac ati.

Mae T1 yn caniatau ar gyfer carafanau teithiol a phebyll.
Mae T2 yn caniatáu adeiladu hunanddarpar newydd mewn amgylchiadau penodol:

- Ategol i sefydlu gwestai canolig neu fawr.
- Ailddefnyddio neu drosi adeiladau presennol yng nghefn gwlad yn amodol ar H4.
- Ailadeiladu sylweddol o fewn libart fferm lle mae'n cydymffurfio gyda RE3 arallgyfeirio amaethyddol.

Mae T3 yn caniatáu llety ymwelwyr a chyrsiau golff lle mae'n cefnogi'r economi twristiaeth, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl.

Daw blociau amwynder hefyd o fewn S11 ac S8 yn amodol ar niwed i'r tirwedd.

Yn gyffredinol, dylai cynigion megis yurtiau/cutiau bugeiliaid gael eu tynnu i lawr neu eu symud i storfa allan o'r tymor. Fodd bynnag, dylid ystyried os oes angen hyn ar sail achos wrth achos yn dibynnu ar ddifrod i'r tirwedd ac effaith gweledol. Mae angen ystyried amodau cynllunio i roli nifer yr unedau, lleoliad, ymddangosiad/math o uned a defnydd.

Yn groes i rai o'r canfyddiadau a adroddwyd yn y Pwyllgor Dethol blaenorol ar y mater, canfu'r adolygiad fod fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol mewn gwirionedd yn gyffredinol gefnogol i fathau cynaliadwy o lety twristiaeth, yn cynnwys 'glampio',. Byddai cynigion o'r fath yn dal i fod yn amodol ar ystyriaethau polisi eraill perthnasol (tirwedd, priffyrdd, amgylchedd naturiol/hanesyddol). Fodd bynnag, y man cychwyn ar gyfer asesu cynigion o'r fath yw Polisi Strategol S11 (Economi Ymwelwyr) sy'n cefnogi ac yn ceisio galluogi darparu datblygiad twristiaeth gynaliadwy yn Sir Fynwy.

Fodd bynnag, penderfynodd yr adolygiad hefyd y byddai paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn fuddiol er mwyn rhoi eglurhad i swyddogion a chwsmeriaid ar ddehongli/gweithredu'r fframwaith polisi presennol yng nghyswllt cynigion o'r fath.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i weithredu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yng nghyswllt math arall o lety twristiaeth na chyfeirir atynt yn benodol ym mholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol,

sef carafanau sefydlog. Mae polisi strategol S11 yn annhebyg o gefnogi cynigion o'r fath gan ei bod yn amheus y gellid ystyried carafanau sefydlog yn fath cynaliadwy o lety twristiaeth.

**Craffu Aelod**:

Holodd Aelod am y trefniadau ar gyfer cerbydau'n ymweld â safleoedd. Esboniodd y Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle fod agweddau'n amrywio; mae gan rai safleoedd le yn ymyl yr uned a logwyd a gall eraill fod â maes parcio bach wedi'i dirlunio mewn lleoliad heb fod yn amlwg. Yn gyffredinol mae natur profiadau math glampio yn gwrthannog cerbydau er mwyn cadw amgylchedd agored a diogel. Cadarnhawyd fod hwn yn faes twf o fusnes twristiaeth.

Holodd Aelod am y farchnad am gabanau pren yn y Sir gan nodi fod yr unedau hyn yn boblogaidd yn Fforest y Ddena. Cadarnhawyd fod diddordeb achlysurol fel y rhestrir yn yr adroddiad ategol. Trafodwyd polisi ar gyfer y categori yma o uned gan nodi y gall cefnogaeth ar gyfer y cais amrywio. Er enghraifft, cefnogid cais os yw wedi'i gysylltu gyda gwesty canolig neu fawr ond na fedrid ei gefnogi fel rhan o arallgyfeirio amaethyddol gan y byddai hyn yn cyfrif fel adeiladau newydd.

Holwyd os oedd y polisi yn rhy llym yn nhermau arallgyfeirio amaethyddol. Er na fyddai'n bosibl newid Canllawiau Cynllunio Atodol, cytunwyd y byddai'n bosibl egluro dehongliad ac edrych ar bolisi'r dyfodol dan yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ac i annog cyfleoedd twristiaeth cydnaws mewn lleoliadau derbyniol.

Holodd y Rheolwr Strategol Bwyd a Thwristiaeth sut y byddai buddsoddwyr posibl yn cael eu hysbysu am bosibilrwydd hyblygrwydd mewn amgylchiadau eithriadol. Cadarnhawyd y gellid ystyried y posibilrwydd hwn yn yr ymweliad cyngor cyn gwneud cais sy'n edrych ar geisiadau posibl ar sail achos wrth achos tra'n cadw rheolaeth i wrthod cais. Cytunwyd y byddai canllawiau cynllunio atodol yn ddefnyddiol a chefnogwyd cynhyrchu taflen yn crynhoi'r prif bwyntiau.

Holodd Aelod am bolisi Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yng nghyswllt ceisiadau a wrthodwyd ac a gaiff yn awr eu galw gan y Gweinidog oherwydd risg tybiedig llifogydd. Cyfeiriodd yr Aelod at y risg llifogydd isel ym misoedd twristiaeth yn yr haf gan danlinellu colled bosibl mantais economaidd.

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle y cyflwynir Canllawiau Cynllunio Atodol i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2017.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Croesawodd y Cadeirydd y bwriad i adolygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol a hefyd yr ymrwymiad i gysylltu'n rhagweithiol gyda busnesau i annog cyfleoedd busnes twristiaeth. Cyfeiriodd at y cynnig i gynhyrchu taflen a chynlluniau erial. Canmolodd y Cadeirydd y cydweithio cadarnhaol ar draws adrannau er budd y Sir.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 13eg Hydref, 2016 am 10.00 am**

**6. <u>Rhestr camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod blaenorol.</u>**

Derbyniwyd y rhestr o gamau gweithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu a gynhaliwyd ar 27 Medi 2016. Nodwyd y pwyntiau dilynol:

**Ardoll Seilwaith Cymunedol**

Mae'r Adran Cynllunio yn dal i weithio ar y mater. Os oes newidiadau sylweddol i'r ddogfen, yna caiff ei hailgyflwyno i'r Pwyllgor Dethol ar gyfer craffu. Fodd bynnag, os nad oes newidiadau sylweddol, cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor yn Ionawr 2017.

**Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy**

Cyflwynir adroddiad i'r cyfarfod craffu a gynhelir ar y cyd gyda Phwyllgor Dethol Cymunedau Cryf a Phwyllgor Dethol Oedolion ym mis Chwefror 2017.

**Canran ceisiadau cynllunio a ddirprwywyd i swyddogion ar gyfer penderfyniad**

Bydd Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle yn rhoi manylion y ffigurau cymharol gydag awdurdodau lleol eraill yn dilyn cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru a gynhelir yn y dyfodol agos.

**7. <u>Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu.</u>**

Cafodd Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu ei chraffu a nodwyd y pwyntiau dilynol:

**Eitemau agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Dethol ar 24 Tachwedd 2016**

- Skutrade.
- Adroddiad am yr Eisteddfod..
- Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Menter (i'w gadarnhau).
- Adroddiad Perfformiad CMC2 (i'w gadarnhau).
- Velothon - Adenilliad ar fuddsoddiad (i'w gadarnhau)

**Eitemau agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Dethol ar 5 Ionawr 2017**

- Craffu Cyllideb.

**Eitemau agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Dethol ar 9 Chwefror 2017**

- Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dwristiaeth.

**Cyfarfod y Pwyllgor Dethol - 27 Ebrill 2017**

- Caiff y cyfarfod hwn ei ganslo gyda golwg ar drefnu cyfarfod cynharach ddiwedd Mawrth/dechrau Ebrill 2017.

**Eitem agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Dethol - Mawrth/Ebrill 2017**

## CYNGOR SIR FYNWY

## Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 13eg Hydref, 2016 am 10.00 am

- Adolygu'r hyn a gyflawnodd y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu dros y pum mlynedd flaenorol.

**Diwedd Tachwedd / Dechrau Rhagfyr 2016**

- Digwyddiad Gweithdy Cynllun Rheoli Cyrchfannau.

**8. <u>Cyngor a Blaengynllun Busnes y Cabinet.</u>**

Craffwyd ar Flaenraglen Busnes y Cyngor a'r Cabinet.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am broses gosod cyllideb y Cyngor Sir ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18, nodwyd y codwyd y mater hwn yn y Cyfarfod Bwrdd Cydlynu. Bydd proses wahanol eleni yng nghyswllt gosod y gyllideb. Ni fydd Cyfarwyddiaethau'n paratoi mandadau i gynhyrchu arbedion cyllideb fel mewn blynyddoedd blaenorol gan yr aethpwyd â hyn mor bell ag sy'n bosibl. Bydd y flwyddyn ariannol nesaf ynglŷn â gwneud arbedion drwy'r Cyfarwyddiaethau. Nodwyd na chyhoeddwyd manylion am y broses gosod cyllideb ar gyfer 2017/18 hyd yma. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgorau Dethol yn derbyn manylion y drafft gyllideb ar gyfer 2017/18 yng nghylch cyfarfodydd Ionawr 2017. Gellid sefydlu cyfarfod ar y cyd o'r pedwar Pwyllgor Dethol i graffu ar y gyllideb yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â chyfarfodydd Phwyllgorau Dethol unigol.

**9. <u>cyfarfod nesaf.</u>**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 24 Tachwedd 2016 am 10.00 a.m.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:37**